

Polisi Ymateb i Rieni

Ysgol Gyfun Gwent Is Coed



E-bost yr ysgol: gwent.iscoed@ysgolioncasnewydd.cymru
Rhif ffôn yr ysgol: 01633 851614

Polisi ymateb i rieni

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i unrhyw ymholiadau sydd gennych mewn modd effeithiol ac amserol, hoffem dynnu eich sylw at y polisi isod a gofyn am eich cefnogaeth wrth i ni ei weithredu.

Bydd yr ysgol yn ymateb i rieni o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn e-bost, llythyr neu alwad ffôn.

Ni fydd modd gweld rhiant os byddant yn cyrraedd yr ysgol heb apwyntiad.

Disgwylw'n i rieni fod yn gwrtais bob amser yn ystod eu cyfathrebu â staff.

Galwadau ffôn

Pan fydd rhiant yn cysylltu â'r ysgol dros y ffôn, bydd y swyddfa yn cymryd neges a bydd arweinydd Lles a Chynnydd eich plentyn yn dychwelyd yr alwad cyn gynted ag y bo' modd.

Ebost

Os yn cysylltu â'r ysgol drwy e-bost, gofynnwn i rieni ddefnyddio cyfeiriad e-bost yr ysgol (gweler uchod).

Cyfarfodydd gyda rhieni

Mae'r ysgol bob amser yn awyddus i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni er mwyn datrys unrhyw faterion mewn modd amserol. Er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl, gofynnwn i rieni gysylltu â'r swyddfa ar y rhif arferol (gweler uchod) i drefnu apwyntiad gyda'r arweinydd Lles a Chynnydd perthnasol ar amser sy'n gyfleus i bawb. Ni fydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu recordio.

Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 7: Miss Alis Lewis

Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 8: Mr Miles Hermann

Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 9: Mr Geraint Davies

Arweinydd Lles Chynnydd Blwyddyn 10: Mr Owen Morse

Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 11: Miss Annie Scourfield

Arweinydd Lles a Chynnydd Blwyddyn 12/13: Mrs Siân Jenkins-Jones

Miss Anys Jones yw'r Uwch Arweinydd Lles a Chynnydd

Mrs Jennifer Browne yw'r Arweinydd Cynhwysiant

Mr Owain James yw'r Swyddog Diogelu Dynodedig.